CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

GRANTIAU CYHOEDDI SAESNEG

CANLLAWIAU

GRANTIAU LLYFRAU LLENYDDOL UNIGOL

## 1 AMCANION

Mae'r cynllun yn ariannu cyhoeddi llyfrau llenyddol, ynghyd â rhai artistig a diwylliannol o bryd i'w gilydd, sydd o ddiddordeb Cymreig neu'n waith awduron sy'n byw yng Nghymru, ar gyfer oedolion neu blant. Cynigir grantiau fel cyfraniadau tuag at golledion a ragwelir.

## 2 CYMHWYSTER

***Pwy sy'n gymwys i ymgeisio?***

Mae'r cynllun yn agored i gyhoeddwyr yng Nghymru sydd â rhaglen gyhoeddi reolaidd, neu gynlluniau ymarferol i sefydlu rhaglen o'r fath. Bydd hawl hefyd gan gyhoeddwyr o'r tu allan i Gymru sydd am gyhoeddi llyfrau cymwys i wneud cais, ond rhaid iddynt ddangos nad oes unrhyw gyllid arall ar gael iddynt. Ni ellir derbyn ceisiadau gan awduron na chyrff hunan-gyhoeddi na chan gyhoeddwyr sydd am gyhoeddi eu gwaith eu hunain yn unig neu'n bennaf (gweler **Gwybodaeth i Awduron**, https://llyfrau.cymru/en/awduron-2/).

***Pa lyfrau sy'n gymwys?***

Mae'r cynllun wedi'i dargedu at lyfrau â rhagoriaeth lenyddol sydd o ddiddordeb Cymreig neu'n waith awduron sy'n byw yng Nghymru. Cefnogir ysgrifennu o ansawdd uchel, ynghyd â deunydd arall o ddiddordeb diwylliannol o bryd i'w gilydd, ac mae'r categorïau sy'n gymwys am gefnogaeth fel arfer yn cynnwys barddoniaeth, ffuglen, bywgraffiadau, dramâu, beirniadaeth lenyddol, hanes (ond nid hanes lleol), materion cyfoes a chyfieithiadau o Gymraeg i Saesneg o unrhyw rai o'r rhain. Rhoddir ystyriaeth hefyd i weithiau am fathau eraill o gelfyddyd. Rydym yn croesawu ceisiadau am lyfrau sy'n helpu i gynyddu amrywiaeth yn y ddarpariaeth sydd ar gael, yn enwedig gwaith sy'n cyfleu profiadau bywyd awduron du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn ogystal ag eraill sydd â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Cyngor Llyfrau hefyd yn fodlon gwrando ar y ddadl dros ragoriaeth lenyddol llyfr o unrhyw gategori nad yw wedi'i restru yma. Fel arweiniad cyffredinol, fodd bynnag, mae'r categorïau sydd wedi'u heithrio yn cynnwys arweinlyfrau, llyfrau hunangymorth, hobïau, llyfrau neu gylchgronau proffesiynol a sgoriau cerddoriaeth.

Rhaid i bob llyfr (heblaw, weithiau, am lyfrau i blant bach) gynnwys o leiaf 48 tudalen o destun.

Lle bo ansicrwydd a yw llyfr yn gymwys, gofynnir i gyhoeddwyr drafod eu prosiectau gydag Adran Grantiau'r Cyngor Llyfrau cyn cyflwyno'r cais.

## 3 MEINI PRAWF A BLAENORIAETHAU AR GYFER CLORIANNAU CEISIADAU

Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu'n unol â'r meini prawf a ganlyn, fel y bo'n briodol:

- rhagoriaeth lenyddol y gwaith (o ran arddull, strwythur, dychymyg, gwreiddioldeb, cyfraniad i drafodaeth feirniadol, ac ati);
- ansawdd gwaith blaenorol yr awdur (lle nad oes teipysgrif gyflawn ar gael);
- gallu'r cyhoeddwr i olygu, cyhoeddi, marchnata a dosbarthu drwy Gymru gyfan a'r tu hwnt;

- i ba raddau y mae'r cyhoeddwr wedi profi'r angen am gyllid.

Bydd cystadleuaeth gref am y grantiau hyn: mae'n bwysig fod pob cais yn dadlau'r achos dros gael grant mor fanwl ag sy'n bosibl.

## 4 Y GRANT

- Mae cyfanswm blynyddol y gyllideb ar gyfer y cynllun hwn oddeutu £60,000.
- Nid oes isafswm nac uchafswm grant, ond yn gyffredinol mae'r Cyngor Llyfrau yn ceisio talu'r gwahaniaeth rhwng costau cyhoeddi llyfr a'r incwm tebygol o werthiant y teitl hwn yn ystod y ddwy flynedd gyntaf.
- Nid oes unrhyw gyfyngiad ar nifer y ceisiadau y caiff cyhoeddwr eu cyflwyno ond dylid ystyried y ffaith bod y gystadleuaeth yn ffyrnig ac mae pen draw i'r arian sydd ar gael.

## 5 SUT A PHRYD I YMGEISIO

- Rhaid gwneud ceisiadau ar y ffurflen gais [GA ILBG (2021)], sydd ar gael o'r cyfeiriad a roddir ar ddiwedd y ddogfen hon.
- Rhaid cyflwyno teipysgrif gyflawn o'r llyfr gyda'r ffurflen wedi'i llenwi. Mewn rhai achosion, <u>mae'n bosibl</u> y bydd sampl a/neu synopsis yn dderbyniol, ond dylai cyhoeddwyr sydd am archwilio'r opsiwn hwn gysylltu gyda'r Adran Datblygu Cyhoeddi <u>cyn</u> cyflwyno'r cais (noder y byddai ceisiadau o'r math yma yn cystadlu yn erbyn llawysgrifau llawn sydd, mewn rhai achosion, wedi eu golygu yn llawn).
- Dylai cyhoeddwyr roi sylw arbennig i unrhyw wybodaeth ychwanegol a fydd o gymorth i Gyngor Llyfrau Cymru ddod i benderfyniad rhesymol ar sail gwybodaeth sicr (e.e. am ddarluniau neu ddeunydd arall na chyfeirir ato yn y deipysgrif).
- Gellir cyflwyno teipysgrifau cyn bod gwaith golygu creadigol wedi'i ddechrau neu'i orffen, ond cyfrifoldeb y cyhoeddwr yw nodi'n glir, yn y gofod a ddarperir ar y ffurflen gais, hyd a lled y math o waith sydd i'w wneud. Dylai'r cyhoeddwr hefyd nodi'r amserlen a fwriedir ar gyfer cwblhau gwaith sy'n dal heb ei wneud, gan roi enw'r golygydd fydd yn gweithio ar y deipysgrif. Cyfeirir ymgeiswyr hefyd at yr adran ar Feini Prawf a Blaenoriaethau ar gyfer Cloriannu Ceisiadau mewn perthynas â'r pwynt hwn. Os yw'r gwaith golygu neu'r gwaith ailysgrifennu sydd gan yr awdur i'w wneud mor helaeth nes codi amheuon ynghylch ansawdd tebygol y cynnyrch gorffenedig, hysbysir cyhoeddwyr y gall y Cyngor Llyfrau ohirio gwneud penderfyniad ar y cais a gofyn i'r cyhoeddwr ailgyflwyno'r cais wedi i fwy o waith gael ei wneud. Er na ofynnir i'r cyhoeddwr ailgyflwyno os nad oes unrhyw debygolrwydd y ceir grant, ni ellir cynnig unrhyw addewid y bydd grant yn cael ei ddyfarnu pan gaiff teipysgrif ei hailgyflwyno a bydd y deipysgrif yn gorfod bodloni'r asesiadau rhagoriaeth lenyddol arferol.
- Bydd Cyngor Llyfrau Cymru'n comisiynu ei adroddiad(au) ei hun ar y gwaith a gyflwynir, a fydd yn argymell i'r Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi Saesneg a ddylid cynnig grant ai peidio. Anfonir copïau o'r adroddiadau hyn i'r cyhoeddwr. Ni fyddwn yn datgelu pwy yw darllenydd/darllenwyr y Cyngor Llyfrau heb ganiatâd yr unigolion hynny.
- Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried gan yr Is-bwyllgor Datblygu Cyhoeddi Saesneg, sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, yn Chwefror, Mai, Gorffennaf a Hydref fel arfer. Nodir dyddiadau cau ar gyfer derbyn ceisiadau ar wefan y Cyngor Llyfrau a gellir eu cael hefyd o'r cyfeiriad isod. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod beth yw'r penderfyniadau o fewn wythnos ar ôl i'r Is-bwyllgor gyfarfod.
- Ni fydd grantiau'n cael eu dyfarnu yn ôl-weithredol. <u>Dylai cyhoeddwyr ganiatáu digon o amser rhwng cyfarfod o'r Is-bwyllgor a'r dyddiad cyhoeddi a fwriedir (chwe mis) er mwyn osgoi ymrwymo i gyhoeddi cyn clywed canlyniad eu cais</u>. Os yw'r dyddiad cyhoeddi'n rhy agos at ddyddiad cyfarfod yr Is-bwyllgor, gallai'r Is-bwyllgor gymryd yn ganiataol nad oes angen gwirioneddol am gymorth grant.

- Rhaid i bob cyhoeddwr sy'n derbyn Grant Llyfr Llenyddol Unigol gydymffurfio â'r Amodau Cyffredinol [GT&C ILBG (2021)], gan gynnwys darparu gwybodaeth lyfryddol yn brydlon a gofalu bod teitlau sy'n derbyn cymorth grant ar gael drwy'r sianeli masnach arferol (gan gynnwys Canolfan Ddosbarthu Cyngor Llyfrau Cymru). Gofynnir i gyhoeddwyr ymgyfarwyddo â'r ddogfen hon cyn cyflwyno cais.

## 6 TALU GRANTIAU

Bydd y Cyngor Llyfrau yn rhyddhau'r grant i'r cyhoeddwr wedi iddo dderbyn ffurflen hawlio wedi ei chwblhau [GC ILBG (2021)] a chadarnhad bod copiau o'r llyfr wedi cyrraedd y Ganolfan Ddosbarthu. Yna bydd pedwar copi cyfarch o'r llyfr yn cael eu harchebu'n uniongyrchol o'r Ganolfan Ddosbarthu. Mae'r Cyngor Llyfrau yn cadw'r hawl i newid swm y grant sy'n daladwy os oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y manylion a roddir ar y ffurflen hawlio a'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y cais gwreiddiol neu os nad yw'r cyhoeddwr yn cydymffurfio ag amodau'r cymorth grant [GT&C ILBG (2021)]. Os yw grant heb ei hawlio 12 mis ar ôl y dyddiad cyhoeddi a nodir ar y ffurflen gais yna bydd y grant yn cael ei ganslo.

## 7 MONITRO A GWERTHUSO'R GWAITH A GEFNOGWYD

Bydd y Cyngor Llyfrau yn gofyn i gyhoeddwyr ddarparu gwybodaeth wedi'i diweddaru'n rheolaidd am ffigurau gwerthiant teitlau a gefnogir dan y cynllun hwn, ac mae'n bosibl y bydd hefyd yn gofyn am gopïau o adolygiadau i helpu i fonitro ansawdd. Mae'n darparu ffigyrau gwerthiant yn amod o'r grant.

## NODIADAU AR GWBLHAU'R FFURFLEN GAIS (fel y cyfeirir atynt ar y ffurflen)

1. **Categori** Nodwch Gategori'r llyfr y bwriadwch ei gyhoeddi. Y cynllun dosbarthu safonol ar gyfer masnach lyfrau'r DU a marchnadoedd eraill yn yr iaith Saesneg yw cynllun Standard Subject Categories & Qualifiers, Book Industry Communication (BIC), ac mae rhestr gyflawn o'r categorïau ar gael yn www.bic.org.uk/productinfo-subjectcat.html. Mae'r prif benawdau categori perthnasol fel a ganlyn, ond dylech edrych ar y rhestr lawn am fwy o fanylion:

| | | | |
|---|---|---|---|
| A | Y Celfyddydau | G | Cyfeirlyfrau, Gwybodaeth ac Astudiaethau Rhyngddisgyblaethol |
| B | Bywgraffiadau a Storïau Gwir | H | Dyniaethau (Hanes, Archaeoleg, Athroniaeth, Crefydd) |
| C | Iaith | J | Cymdeithas a Gwyddorau Cymdeithasol |
| D | Llenyddiaeth ac Astudiaethau Llenyddol | W | Ffordd o Fyw, Chwaraeon a Hamdden |
| F | Ffuglen ac Eitemau Cysylltiedig | Y | Y Plant, Oedolion Ifainc a Deunydd Addysgol |

2. **Fformat** Dylai fformat y llyfr y bwriadwch ei gyhoeddi fod yn addas ar gyfer categori'r llyfr a dilyn yr hyn sy'n arferol yn y diwydiant, e.e. 'fformat A', tudalennau wedi'u torri i faint 178 x 111 mm (heb eu gwnïo), yw fformat arferol llyfrau clawr papur ar gyfer y farchnad dorfol; 'fformat B', tudalennau wedi'u torri i faint 198 x 126 mm (heb eu gwnïo), yw'r fformat arferol i lyfrau clawr papur nad ydynt yn ffuglen ac ar gyfer ffuglen lenyddol. Os ydych yn ansicr, cysylltwch gyda Chyngor Llyfrau Cymru. Ni fydd grantiau'n cael eu dyfarnu i lyfrau â fformatau amhriodol neu safonau cynhyrchu gwael.

3. **Dyddiad Cyhoeddi** Rhowch ddyddiad cyhoeddi llawn. Gallwch newid hwn os bydd angen, cyn belled ag y rhoddir rhybudd digonol a bod y teitl ddim yn llithro mwy na 12 mis; gweler Amodau'r Grant [GT&C ILBG (2021)]. Mewn achosion lle rhoddir y mis a'r flwyddyn yn unig, bydd y Cyngor Llyfrau yn defnyddio'r 15fed o'r mis fel dyddiad rhagosodedig.

4. **Breindal** Fel arfer bydd y breindal yn 10% o'r pris ar y clawr; gweler Amodau'r Grant [GT&C ILBG (2021)].

**Am ffurflen gais a chyngor pellach, cysylltwch â:**

**Adran Datblygu Cyhoeddi, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JBe-bost: english.grants@books.wales**

MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG / AN ENGLISH-LANGUAGE VERSION OF THIS DOCUMENT IS ALSO AVAILABLE

GRANTIAU CYHOEDDI SAESNEG

AMODAU A THELERAU CYFFREDINOL

GRANTIAU LLYFRAU LLENYDDOL UNIGOL

1 Gwneir y cynnig grant ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn y cais ac mewn unrhyw ohebiaeth ategol. Mae Cyngor Llyfrau Cymru yn cadw'r hawl i ailystyried neu ddiddymu'r grant a ddyfarnwyd mewn achosion lle nad yw'r gwaith cyhoeddedig yn cyfateb â'r manylion a roddwyd ar y ffurflen gais neu a gytunwyd fel arall.

2 Bydd y sawl sy'n derbyn grant yn cydymffurfio ag unrhyw amodau neu ofynion cynllun ychwanegol a nodir yn y cynnig grant ffurfiol neu unrhyw lythyr eglurhaol.

3 Mae'n rhaid nodi nifer y copïau a argraffwyd ar y ffurflen gais. Dylai'r sawl sy'n derbyn grant hysbysu a cheisio caniatâd yr Adran Datblygu Cyhoeddi ymlaen llaw ar gyfer unrhyw newidiadau i'r rhediad argraffu arfaethedig. Mae'r Cyngor Llyfrau yn cadw'r hawl i leihau'r grant os newidir y rhediad argraffu.

4 Mae'n rhaid argraffu'r gydnabyddiaeth ddilynol ar gefn tudalen deitl pob llyfr sydd wedi derbyn grant neu y mae staff y mae eu swyddi'n cael eu cynnal trwy gymorth grant wedi gweithio arno: "The publisher acknowledges the financial support of the Welsh Books Council." Yn ogystal â hynny, lle mae logo cyllidwyr/noddwyr/cefnogwyr eraill yn ymddangos ar gefn y dudalen deitl, y clawr neu ran arall o'r llyfr, yna mae'n rhaid i'r cyhoeddwr gynnwys logo Cyngor Llyfrau Cymru yn ychwanegol i'r geiriad a roddwyd uchod. Dylid cydnabod cefnogaeth ariannol y Cyngor Llyfrau hefyd ym mhob digwyddiad cyhoeddus a fwriadwyd i hyrwyddo neu farchnata teitlau a gefnogir. Gallai methu cynnwys cydnabyddiaeth briodol arwain at ostyngiad o hyd at 10% yn y grant taladwy. Ni ddylid defnyddio cydnabod y grant hwn neu unrhyw gyfeiriadau eraill at y Cyngor mewn unrhyw fodd i awgrymu bod y Cyngor yn derbyn neu'n ymgymryd â chyfrifoldeb am ddyledion neu rwymedigaethau'r sawl sy'n derbyn grant gyda thrydydd parti (gweler rhif 28).

5 Mae'n ofynnol i bob llyfr sy'n derbyn cymorth grant arddangos rhif ISBN 13 digid a chod bar cyfatebol ar glawr pob cyhoeddiad.

6 Dylai gwybodaeth lyfryddol amserol (yn cynnwys ISBN, teitl, awdur, cyhoeddwr, pris, dyddiad cyhoeddi, categori a disgrifiad cryno) gyrraedd Adran Gwerthu a Gwybodaeth y Cyngor Llyfrau o leiaf chwe mis cyn cyhoeddi, neu o fewn pythefnos i'r cyhoeddwr dderbyn cynnig o grant, pa gyfnod bynnag yw'r byrraf. Bydd yr wybodaeth yma yn ymddangos ar *gwales.com*.

7 Dylai llun o glawr y llyfr (mae drafft da yn hytrach na fersiwn terfynol yn dderbyniol yn y lle cyntaf) gyrraedd Adran Gwerthu a Gwybodaeth y Cyngor Llyfrau o leiaf dri mis cyn cyhoeddi'r llyfr. Bydd y clawr yn cael ei arddangos wedyn ar *gwales.com*.

8 Dylai'r sawl sy'n derbyn grant ddefnyddio'r ffurflen ar-lein i gyflwyno'r holl wybodaeth lyfryddol a delweddau o'r clawr. Ceir mynediad at y ffurflen ar-lein trwy gyfrinair, sydd ar gael trwy gysylltu â'r Adran Gwerthu a Gwybodaeth. Lle nad yw hyn yn bosib dylai'r sawl sy'n derbyn grant drafod y mater gyda'r Adran Gwerthu a Gwybodaeth a'r Adran Datblygu Cyhoeddi.

9 Mae'n rhaid i'r cyhoeddwr ddiweddaru'r holl wybodaeth ynglŷn â'r teitl a gedwir ar *gwales.com* (gwybodaeth lyfryddol, disgrifiad cryno a llun y clawr) ar unwaith yn sgîl unrhyw newidiadau cyn neu ar ôl cyhoeddi, hyd nes y bo'r llyfr allan o brint. Dylai'r sawl sy'n derbyn grant wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol trwy gyfrwng y ffurflen ar-lein (neu ddilyn cyngor yr Adran Gwerthu a Gwybodaeth). Gellir cyflwyno gwybodaeth ychwanegol yn electronig yn ôl dymuniad y cyhoeddwr, yn cynnwys tabl cynnwys, bywgraffiad awdur, dyfyniadau o adolygiadau a manylion gwobrau a enillwyd.

10 Yn ogystal â rheoli llif gwybodaeth gywir i'r fasnach lyfrau, dylai'r sawl sy'n derbyn grant hysbysu'r Adran Datblygu Cyhoeddi ynghylch unrhyw oedi yn y dyddiad cyhoeddi (neu fanylion eraill, e.e. newid teitl) mewn da bryd ac o leiaf dri mis cyn y dyddiad cyhoeddi gwreiddiol. Os na chyhoeddir y llyfr o fewn tri mis i'r dyddiad cyhoeddi a roddwyd i'r Adran Datblygu Cyhoeddi, yna gellir diddymu'r grant yn awtomatig. Os yw grant heb ei hawlio 12 mis ar ôl y dyddiad cyhoeddi a nodir ar y ffurflen gais yna bydd y grant yn cael ei ganslo.

11 Ni ddylid cyhoeddi llyfrau sy'n derbyn cymorth grant yn Rhagfyr ac ni ddyfernir grant i unrhyw deitl y bwriedir ei gyhoeddi yn Rhagfyr. Mae'n rhaid i gopïau o deitlau Tachwedd gyrraedd Canolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau erbyn y dydd Mercher olaf ym mis Tachwedd fan bellaf. Yn achos llyfrau a gyhoeddir yn Rhagfyr, neu deitlau Tachwedd sy'n cyrraedd y Ganolfan Ddosbarthu ar ôl y dyddiad a nodwyd, bydd gostyngiad o £200 yn y grant sy'n daladwy.

12 Yn achos adargraffiadau neu argraffiadau newydd, mae'n rhaid arddangos blwyddyn yr adargraffiad neu'r argraffiad newydd yn eglur.

13 Mae'n rhaid i'r awdur dderbyn a llofnodi cytundeb cyn y cyhoeddir y llyfr ac ar yr un adeg ag y mae'r cyhoeddwr yn ymrwymo i gyhoeddi. Rhaid talu breindaliadau rheolaidd. Dylai breindaliadau neu ffioedd gydymffurfio â'r arfer masnachol arferol, ond mae'r Cyngor fel arfer yn dyfarnu grantiau ar y sail bod breindal o 10% o'r pris clawr (gros) yn cael ei dalu ar gyfer llyfrau sy'n derbyn Grant Llyfr Llenyddol Unigol, Grant Blaendal Awdur neu lyfr a gynhwyswyd mewn Rhaglen Gyhoeddi Refeniw. Er hynny, lle rhoddir disgownt o dros 55% i'r fasnach yna fe all cyhoeddwr ail-drafod breindal gwahanol ar gyfer llyfrau a werthir ar y disgownt uwch (e.e. canran o'r derbyniadau net). Dylai'r awdur dderbyn datganiad ariannol a thaliad os yw hynny'n berthnasol o leiaf unwaith y flwyddyn a dylai cytundeb yr awdur nodi pryd y gellid disgwyl datganiadau breindal a thaliadau o'r fath.

14 Wrth hawlio'r grant, mae'n rhaid i'r cyhoeddwr lenwi ffurflen hawlio a hysbysu'r Adran Datblygu Cyhoeddi bod y teitl ar gael yng Nghanolfan Ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau. Yna bydd yr Adran Datblygu Cyhoeddi yn archebu'r pedwar copi cyfarch gofynnol yn uniongyrchol o'r Ganolfan Ddosbarthu.

15 Mae’n amod bod yn rhaid i Ganolfan Ddosbarthu’r Cyngor Llyfrau ddosbarthu llyfrau sy’n cael eu hariannu o dan y cynllun hwn yng Nghymru. Yn ychwanegol at y camau yng nghymal 14 uchod, rhaid i gyhoeddwyr o’r tu allan i Gymru yrru nifer a gytunir o gopïau i Ganolfan Ddosbarthu’r Cyngor Llyfrau cyn y gellir rhyddhau’r taliad grant.

16 Mae'n ofynnol i bob cyhoeddwr nad yw’n argraffu gadw anfonebau am y gwaith argraffu a rhwymo a wnaed. Mae’r Cyngor Llyfrau yn cadw’r hawl i ofyn am y rhain neu unrhyw dystiolaeth berthnasol arall o wariant. Mae’n ofynnol hefyd i gyhoeddwyr geisio o leiaf tri dyfynbris i ganfod y prisiau mwyaf cystadleuol ar gyfer cysodi ac argraffu o leiaf bob 3 blynedd, er yr argymhellir cynnal cymariaethau yn amlach na hynny.

17 Dylai argraffwyr-gyhoeddwyr gadw cofnod o'r prisiau a godir yn fewnol ar gyfer argraffu llyfrau a dylai'r rhain adlewyrchu’r prisiau a godir ar gwsmeriaid eraill am wasanaethau tebyg. Mae’r Cyngor Llyfrau yn cadw’r hawl i ofyn am y rhain neu unrhyw dystiolaeth berthnasol arall o wariant.

**18 Yn achos unrhyw lyfr sy’n derbyn cymorth grant, dylid hysbysu'r Cyngor Llyfrau ynghylch unrhyw gymorth ariannol a dderbyniwyd tuag at gyhoeddi’r llyfr o unrhyw ffynhonnell arall ar wahân i Gyngor Llyfrau Cymru.**

**19 Bydd safon y gwaith golygu a gyflawnwyd ac ansawdd dylunio a chynhyrchu’r llyfr yn gyffredinol yn cael eu hystyried wrth bennu'r grant a gynigir a'r grant terfynol a delir. Mewn achosion lle bernir nad yw golygu neu ddyluniad a chynhyrchiad y llyfr yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig, yna gellir lleihau'r grant. Hefyd mae'n bosib y bydd golygu, dylunio neu gynhyrchu annerbyniol o'r fath yn cael eu hystyried wrth ddyfarnu grantiau yn y dyfodol.**

20 Mae'n ofynnol i bob llyfr sy’n derbyn grant fod ar gael trwy Ganolfan Ddosbarthu’r Cyngor Llyfrau ar delerau'r Cyngor Llyfrau (fel arfer <u>lleiafswm archeb</u> o 60 copi o bob teitl, ond yn aml yn uwch na hynny), ar sail <u>gwerthu neu ddychwelyd</u>, er mwyn iddynt fod ar gael i'r llyfrwerthwyr ar y telerau masnachol arferol.

21 Mae’n amod bod llyfrau sy’n derbyn cymorth grant yn cael eu danfon i Ganolfan Ddosbarthu’r Cyngor Llyfrau <u>cyn neu ar yr un pryd</u> ag y maent ar gael trwy ddulliau eraill i unrhyw ddosbarthwr neu werthwr arall, neu eu bod ar gael mewn lansiad neu ddigwyddiad arall. Y cyhoeddwr sy'n gyfrifol am gludo a chyflenwi’r llyfrau'n brydlon.

22 Os cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg o lyfr, a bod un ohonynt wedi derbyn cymorth grant, yna mae'n amod bod y ddau fersiwn ar gael trwy'r Ganolfan Ddosbarthu yn unol â'r telerau a nodwyd yn amodau 20 ac 21.

23 Os yw cyhoeddwr yn derbyn arian craidd gan y Cyngor Llyfrau, e.e. cefnogaeth ar gyfer swyddi, yna mae’n amod y dylai <u>pob</u> teitl a gyhoeddir gan y cyhoeddwr, boed yn derbyn cymorth grant unigol ai peidio, fod ar gael yn barhaus trwy Ganolfan Ddosbarthu’r Cyngor Llyfrau.

24 Dylai pob llyfr sy’n derbyn cymorth grant fod <u>mewn print ac ar gael yn barhaus</u> yng nghanolfan Ddosbarthu’r Cyngor Llyfrau am o leiaf <u>un flwyddyn</u> ar ôl cyhoeddi. Os sicrheir gwerthu hawliau o fewn y deuddeg mis cyntaf ar ôl ei gyhoeddi y mae’n rhaid cadw teitl â chymorth grant mewn print, dylai'r cyhoeddwr ofyn am gymeradwyaeth ac arweiniad gan Adran Datblygu Cyhoeddi’r Cyngor Llyfrau, neu wynebu'r posibilrwydd o orfod ad-dalu cyfran o'r grant. Os nad yw llyfr ar gael neu os bydd allan o stoc yn ystod y flwyddyn gyntaf wedi’i gyhoeddi, yna gall y Cyngor Llyfrau hawlio ad-daliad o £1,000 am

bob teitl. Eithriadau i hyn yw cydargraffiadau rhyngwladol a llyfrau tymhorol, er enghraifft rhai llyfrau a gyhoeddir at y Nadolig.  Rhaid cymryd gofal nad yw'r argaeledd yn cael ei effeithio gan broblemau gyda rhwymiad, neu rediad argraffu annigonol, er enghraifft. Cyfrifoldeb y cyhoeddwr yw sicrhau bod llyfrau'n cyrraedd y Ganolfan Ddosbarthu mewn da bryd i gwrdd â'r amod hwn.

25 Yn achos llyfrau sy’n derbyn cymorth grant, ni ddylid gostwng y pris gwerthu yn sylweddol (fel mewn arwerthiant hanner pris) am gyfnod o ddeunaw mis ar ôl cyhoeddi. (Nid yw hyn yn atal cyhoeddwyr rhag cael ‘cynigion arbennig’ neu ostyngiadau pris eraill sydd yn rhan o gynlluniau hyrwyddo.)

26 Ni ddylid gwerthu hawliau’r DU ar gyfer teitlau a gyhoeddir â chymorth grant heb gytundeb y Cyngor Llyfrau ymlaen llaw o fewn dwy flynedd gyntaf i’r cyhoeddi.

27 Mae'n rhaid i bob un sy’n derbyn grant ddarparu ffigurau gwerthiant ar gyfer pob teitl am gyfnod o hyd at ddwy flynedd o'r dyddiad cyhoeddi.  Bydd y Cyngor Llyfrau yn gofyn am ffigurau o'r fath yn ôl yr angen. Mae'r Cyngor Llyfrau yn cadw'r hawl i ofyn am unrhyw wybodaeth resymol arall am berfformiad llyfr sy’n derbyn cymorth grant wrth werthuso effeithiolrwydd cymorth grant a monitro gwerth am arian.

**28 Os nad yw'r dibenion y cynigiwyd grant ar eu cyfer wedi eu cyflawni mewn da bryd, neu os na chydymffurfiwyd â'r amodau perthnasol, fe all y Cyngor Llyfrau ofyn am i’r cyfan neu ran o’r grant allai fod wedi cael ei dalu eisoes gael ei ddychwelyd.**

29 Mae’r Cyhoeddwr ar ei ran ei hun (ac eraill) yn cyfamodi gyda Chyngor Llyfrau Cymru a’u holynwyr yn y teitl y bydd ar bob adeg o hyn allan yn diogelu ac yn digolledu’r Cyngor a’i eiddo rhag pob achos, cost, hawliad a gorchymyn allai godi yn sgil torri unrhyw gyfraith gwlad.